

Gorfoleddu mewn dirgelwch

*“Traetha fy nghalon beth da:
dywedyd yr ydwyf y pethau a wneuthum i’r brenin.” (adn. 1) (B.W.M.)*

Beth am ddarllen Salm 45:1–17 ac yna myfyrio

Efallai eich bod yn cofio imi ddweud pan oeddem yn sôn am ran Naomi, na ddaru Duw ddim dileu ei chwyn hi o’r cofnod ysbrydoledig o’r hanes, ond fe’i gadawodd i mewn yno a’i ddefnyddio i hyrwyddo’i amcanion ef ei hun. Roeddwn i’n chwilfrydig wrth imi ddod ar draws y datganiad yma beth amser yn ôl: “Dydy Duw ddim yn ymfyfyrio yn yr hyn fyddwn ni’n ei olygu a’i ddileu, ond mae o wrth ei fodd gyda’n barddoniaeth ni.” Beth oedd ystyr hynny, meddwn i wrthyf fy hun.

Wrth imi feddwl amdano, fe ddois i i’r casgliad bod yna wahaniaeth rhwng barddoniaeth a rhyddiaith. Maen nhw’n gwbl wahanol yn eu natur a’u pwrpas. Canlyniad nwyd ydy barddoniaeth. Mae ’na rywbeth ffrwydrol ynglŷn ag o, yn chwyddo i fyny yn enaid y bardd fel lafa berwedig gan ferwi drosodd mewn iaith sydd yn cyffwrdd â’n synhwyrau. Fedr y bardd ddim peidio â sgwennu’r gerdd. Mae o neu hi yn ei sgwennu hi hyd yn oed os nad oes yna neb yn debygol o’i darllen hi byth. Mewn gwirionedd, does gan rai beirdd fawr o ots a gaiff eu gwaith ei ddarllen o gwbl; y cwbl sydd ganddyn nhw mewn golwg ydy rhoi mynegiant geiriol i’w meddyliau. Nid felly mae hi gyda rhyddiaith. Yn gyffredinol, mae’r awdur rhyddiaith yn penderfynu’n gyntaf beth mae o am ei ddweud ac yna’n mynd ati i’w ddweud yn yr iaith egluraf bosibl.

Pan sonia awdur y datganiad uchod am Dduw yn gwgu ar ein dileu a’n golygu ninnau ond yn ymfyfyrio yn ein barddoniaeth, rwy’n credu mai sôn mae o am y gwahanol agweddau y gallai fod gan y bardd a’r awdur rhyddiaith tuag at y dirgel. Gallai’r awdur rhyddiaith fod yn edrych ar rywbeth yn ddadansoddol, gan ddweud: “Mae angen mwy o oleuni arnaf cyn y gallaf ddweud dim.” Mae’r bardd yn fwy tebygol o ymateb trwy fynd i mewn i’r dirgelwch a chyfansoddi cerdd amdano. Dyma beth mae’r salmydd yn ei wneud yn y salm a ddarllenom ni heddiw. Dydy o ddim yn ceisio rheoli dirgelwch Duw; dim ond gorfoleddu ynddo fo.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf. 11:27–36; Job 11:7; Preg. 3:11; Eseia 40:28

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae Paul yn ei ddweud am farnedigaethau a ffyrdd Duw?
2. I ba gasgliad y daeth Eseia?

Gweddi

O Dad, rho imi gael ymateb i’r hyn rwy’ti’n ei wneud yn fy mywyd i gyda barddoniaeth diolchgarwch a mawl. Arbed fi rhag chwilio am bethau i’w dileu. Ond gad imi dderbyn popeth gyda gras a diolch. Yn enw Crist y gofynnaf hyn. Amen.